

CYNGOR CYMUNED **Y FERWIG** COMMUNITY COUNCIL

Cofnodion y Cyfarfod Cyffredinol gynhaliwyd nos Lun, 4 Chwefror, 2019 am 7.30yh
yn Hen Ysgol y Ferwig

Presennol:

Cyng. Dilwyn Jenkins (*Cadeirydd*)

Cyng. Matthew Morgan

Cyng. Peter Williams

Cyng. Clive Davies (*Aelod lleol o'r Cyngor Sir*)

Cyng. Llinos Price

Cyng. Des Davies

Mrs Hildreth Owen (*Clerc*)

- 1. Croeso'r Cadeirydd a Materion Personol:** Croesawodd y Cadeirydd, y Cyng. Dilwyn Jenkins, bawb i gyfarfod mis Chwefror. Llongyfarchodd y Cyng. Lloyd Jenkins ar ei fenter newydd o gynhyrchu a gwerthu llaeth ac wyau. Cydymdeimlodd gyda'r Cyng. Matthew Morgan yn dilyn marwolaeth sydyn ei ewythr.
- 2. Ymddiheuriadau am absenoldeb:** Y Cynghorwyr Eurig Lloyd, Ann Stokoe, Auriol Williams, Lloyd Jenkins, Lyn Jones.
- 3. Cofnodion y cyfarfod cyffredinol blaenorol.**
Cynigiwyd gan y Cyng. Matthew Morgan ac eiliwyd gan y Cyng. Dilwyn Jenkins bod cofnodion Ionawr yn gywir.
- 4. Datgelu buddiannau personol:** Dim
- 5. Materion yn codi:**
 - (a) Hysbysebion ar gyfer gwahodd ceisiadau am swydd Clerc i Gyngor Cymuned y Ferwig:** Derbyniwyd dau gais am y swydd. Gofynnwyd i'r Clerc drefnu cyfweiliadau.
 - (b) Bin sbwriel i Olygfan y Gwbert:** Gwrthodwyd gosod bin ar y safle gan y Cyngor Sir gan fod bin yno yn annog pobl i adael sbwriel anghyfreithlon gerllaw.
 - (c) Cysgodfan bysiau ar yr A487 ger Pwllbywmpwr:** Mae cysgodfan newydd wedi ei gosod gan y Cyngor Sir.
 - (d) Cyfarfod Pwyllgor Apêl Lleol Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion 2020:** Mynychwyd yr ail gyfarfod yng Nghastell Aberteifi ar 24 Ionawr gan y Cyngh. Des Davies a Llinos Price. Mae rhaglen o weithgareddau ar fin cael ei chyhoeddi.
- 6. Ceisiadau am Gymorth Ariannol**

I'w penderfynu ym mis Ebrill a mis Hydref, yn unol ag adrannau 137 a 142 (CAB) o'r Ddeddf Ariannol 1996.

Cyngor ar Bopeth	£150.00
Gŵyl Fawr Aberteifi	£150.00
Gofal Mewn Galar	£50.00
Canolfan Therapi Plant Bobath Cymru	£150.00
Capel y Bedyddwyr Penyparc	£1,000.00
Pwll Nofio Aberteifi	£1,000.00
Clwb Pêl-droed Penyparc	I'w drafod ym mis Ebrill 2019
Hen Ysgol y Ferwig	I'w drafod ym mis Ebrill 2019
Clybiau Ffermwyr Ifainc Ceredigion	I'w drafod ym mis Ebrill 2019
Treialon Cŵn Defaid Rhyngwladol Ceredigion 2020	I'w drafod ym mis Ebrill 2019
Gŵyl Fawr Aberteifi	I'w drafod ym mis Ebrill 2019
Papur Bro "Y Gambo"	I'w drafod ym mis Ebrill 2019

7. Cynllunio:

<i>Rhif y Cais</i>	<i>Cyfeiriad a Bwriad</i>	<i>Sylwadau'r Cyngor</i>
A190023	Crugmore Farm, Penyparc: "Variation of condition 6 of planning permission A140756 volume of feedstock".	Daethpwyd i'r penderfyniad nad oedd gan yr aelodau ddigon o wybodaeth am faterion technegol y cais.
A181200	Angorfa, Penyparc. "New garage with domestic room above"	Mae'r cyngor yn cefnogi'r cais

CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

8. Materion Ariannol

Biliau wedi eu talu:

Cyflog y Clerc (Ionawr 2019)	101747	£308.77
Costau'r Clerc (Ionawr 2019)	101748	£48.60
Cyllid a Thollau EM: Treth Incwm y Clerc (Ionawr 2019)	101749	£77.20
Canolfan Ieuenctid Penyparc (50% cost yswiriant Ystafell Berkley)	101750	£332.13
Bus Shelters Ltd (Cysgodfan bysiau, Penyparc)	101751	£5,114.24
Papur Bro "Y Gambo" (tâl am hysbyseb swydd Clerc i'r Cyngor)	101752	£9.00

Cynigiwyd gan y Cyng. Llinos Price ac eiliwyd gan y Cyng. Des Davies bod y biliau uchod yn cael eu talu.

Materion ariannol eraill:

Gwrthodwyd sic 101741 yn daladwy i gwmni Bus Shelters Ltd am nad yw manylion gorchymyn (*mandate*) y banc wedi eu diweddarau gan HSBC. Cytunwyd anfon sic o'r newydd (101751).

Derbyniadau: Dim

9. Gohebiaeth:

66	Cyfeillion Ysbyty Aberteifi a'r Gymuned	Dyddiad Cyfarfod Cyffredinol: 23 Ionawr am 7:00yh yn Ward Collen	Y cyngor i apwyntio cynrychiolydd i wasanaethu ar y pwyllgor yng nghyfarfod mis Mai.
67	Cyngor Sir Ceredigion (Arwyn Morris)	Ffyrdd newydd gan y Cyngor Sir o ddarparu gwybodaeth.	Nodwyd
68	Canolfan Hamdden a Phwll Nofio Aberteifi	Llythyr o ddiolch am gyfraniad y Cyngor (£1,000) tuag at gostau'r Pwll.	Nodwyd
69	Clybiau Ffermwyr Ifainc Ceredigion	Cais am gymorth ariannol.	I'w drafod yng nghyfarfod mis Ebrill.
70	Ben Lake AS	Llythyr a phosteri i'w harddangos yn yr hysbysfyrddau.	Mae'r posteri wedi eu harddangos yn yr hysbysfyrddau.
71	Treialon Cŵn Defaid Rhyngwladol Ceredigion 2020	Cais am gymorth ariannol.	I'w drafod yng nghyfarfod mis Ebrill
72	Gŵyl Fawr Aberteifi	Cais am gymorth ariannol.	I'w drafod yng nghyfarfod mis Ebrill.
73	Papur Bro "Y Gambo"	Cais am gymorth ariannol.	I'w drafod yng nghyfarfod mis Ebrill.

10. Materion Eraill:

- Golygfan Gwbert:** Mae angen llenwi'r ceubyllau sydd yn yr Olygfan; dywedodd y Cyng. Matthew Morgan y byddai'n barod i wneud y gwaith. Diolchwyd iddo gan y Cadeirydd.
- Clwb Ffermwyr Ifainc Penyparc:** Gan fod y Clwb yn dathlu 75 mlynedd ers ei sefydlu, gofynnwyd i'r Clerc anfon carden o longyfarchiadau.
- "Datblygiad Un Blaned":** Trefnwyd cyfarfod gan Gyngor Cymuned Llangoedmor a gwahoddwyd Cyngor Cymuned y Ferwig i'w fynychu yng nghwmni Jane Davidson, cyn-weinidog y Cynulliad ar yr amgylchedd, materion cynaliadwy a thai. Dywedodd y Cyng. Dilwyn Jenkins bod y cyfarfod wedi bod yn fuddiol dros ben.
- Nodwyd bod yr arwydd yn dynodi safle'r maes carafannau yn Patch wedi torri.**
- Cinio Blyneddol y Cyngor:** Cytunodd y Cadeirydd drefnu'r digwyddiad.
- Biniau awtomatig:**

11. Adroddiad y Cyngorydd Sir, y Cyng. Clive Davies:

- Mannau parcio yn Patch:** Disgwylir rhagor o wybodaeth am y datblygiad arfaethedig.
- Mannau pasio ar y lôn i draeth y Mwnt:** Disgwylir ymateb oddi wrth yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol cyn symud ymlaen.
- Cyllideb Cyngor Sir Ceredigion:** Yn dilyn cyfarfod cyllideb y Cyngor Sir, rhagdybir y bydd cynnydd o 7% yn y dreth cyngor am y flwyddyn ariannol 2019-20.

CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

- (d) **Cynlluniau Lle:** Disgwylir i'r Cyng. Davies drefnu cyfarfod gyda Mr Martin Price, cydlynedd y fenter, yn ystod y mis i drafod digwyddiadau'r haf gyda'r cymunedau yn ardaloedd y Ferwig a Phenyparc.
- (e) **Band-eang:** Trefnir cyfarfod yn y Ferwig ar 20 Chwefror i drafod band-eang cyflym yr ardal. Disgwylir i Elin Jones AC, swyddog G.Tech, a chynrychiolydd Llywodraeth Cymru fynychu'r cyfarfod.
- (f) **Llwybr Arfordir:** Cafwyd gwybodaeth gan Mr Osian Jones, swyddog llwybrau'r Cyngor Sir, bod yr ail bont i'r de o Lwynysgaw wedi ei chwblhau. Mae'r drydedd bont i'r de oddi yno mewn cyflwr gwael hefyd; caiff hon i'w harchwilio cyn bo hir.

12. **Dyddiad y cyfarfod nesaf:** 4 Mawrth (YB)

Cyfarfodydd y Cyngor am 2019:

1 Ebrill (F) 13 Mai (YB) 3 Mehefin (F)

1 Gorffennaf (YB) 2 Medi (F) 7 Hydref (YB) 4 Tachwedd (F) 2 Rhagfyr (YB)

Dynoda: F = Hen Ysgol y Ferwig YB = Ystafell Berkley CB = Cyfarfod Blyneddol

CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

Minutes of the Ordinary Meeting held on Monday, 4 February, 2019 at 7.30pm at Hen Ysgol y Ferwig

Present

Cllr Dilwyn Jenkins (*Chairperson*)

Cllr Matthew Morgan

Cllr Des Davies

Cllr Clive Davies (*Local member of the County Council*)

Cllr Llinos Price

Cllr Peter Williams

Mrs Hildreth Owen (*Clerk*)

1. Chairperson's welcome and Personal Matters.

The Chairman, Cllr Dilwyn Jenkins, welcomed all members to the February meeting. He congratulated Cllr Lloyd Jenkins on his new dairy product retailing venture. He also offered the Council's condolences to Cllr Matthew Morgan following the sudden death of his uncle.

2. Apologies for absence: Cllrs Eurig Lloyd, Ann Stokoe, Auriol Williams, Lloyd Jenkins, Lyn Jones.

3. Minutes of the previous meeting.

It was proposed by Cllr Matthew Morgan and seconded by Cllr Dilwyn Jenkins that the minutes of the January meeting be recorded as correct.

4. Declaration of personal interests: None

5. Matters arising:

- (a) **Notices inviting applications for the role of Clerk of Ferwig Community Council:** Two applications have been received. The Clerk was requested to organise the interviews.
- (b) **Litter bin for the Gwbert Viewpoint:** The County Council has refused permission to place a bin and to collect the residue as placing a bin at the location would invite unauthorised fly-tipping.
- (c) **Bus shelter on the A487 alongside Pwlllybwmpwr:** The shelter has been erected by the County Council.
- (d) **Meeting of the Local Appeal of the 2020 National Eisteddfod of Wales Ceredigion:** The meeting was attended by Cllrs Des Davies and Llinos Price. A comprehensive programme of events is under preparation.

6. Requests for financial support.

To be discussed in April and October in accordance with Sections 137 and 142 (CAB) of the Finance Act 1996.

Citizens' Advice Bureau	£150.00
Gŵyl Fawr Aberteifi	£150.00
Cruse Bereavement Care	£50.00
Bobath Wales Children's Therapy Centre	£150.00
Penyparc Chapel	£1,000.00
Cardigan Swimming Pool	£1,000.00
Penyparc Football Club	To be discussed in April 2019
Hen Ysgol y Ferwig	To be discussed in April 2019
Gŵyl Fawr Aberteifi	To be discussed in April 2019

7. Planning:

<i>App No</i>	<i>Address and Purpose</i>	<i>Council Observations</i>
A190023	Crugmore Farm, Penyparc: "Variation of condition 6 of planning permission A140756 volume of feedstock".	Members consider they don't have the required technical expertise to comment on this application.
A181200	Angorfa, Penyparc "New garage with domestic room above".	Council supports this application.

CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

8. Financial Matters.

Bills paid:

Clerk's salary (January 2019)	101747	£308.77
Clerk's Expenses (January 2019)	101748	£48.60
H M Revenue & Customs: Clerk's Income Tax (January 2019)	101749	£77.20
Canolfan Ieuencid Penyparc (50% insurance Ystafell Berkley)	101750	£332.13
Bus Shelters Ltd (Penyparc Bus Shelter)	101751	£5,114.24
"Y Gambo" Welsh newspaper (Notice of the Clerk's vacancy)	101752	£9.00

It was proposed by Cllr Llinos Price and seconded by Cllr Des Davies that the above bills be paid.

Other financial matters:

Cheque number 101741 to Bus Shelters Ltd has been returned as HSBC bank claims that signatures on the cheque do not correspond with bank mandate. It was agreed that a replacement cheque (No. 101751) be forwarded to the company.

Receipts: None.

9. Correspondence:

66	Cardigan Hospital & Community League of Friends	Notice of a committee meeting 23 January at 7.00pm at Collen Ward.	Council to nominate a representative to attend the meetings of the League of Friends at the May annual general meeting
67	Ceredigion County Council (Arwyn Morris)	The new approach of delivering information, advice and assistance.	Noted
68	Cardigan Swimming Pool & Memorial Hall	Letter of acknowledgment for the Council's donation of £1,000 towards the Pool's funds.	Noted
69	Ceredigion Young Farmers' Clubs Federation	Application for financial assistance.	To be discussed at the April meeting.
70	Ben Lake MP	Letter and posters of the MP's local surgeries	Posters have been placed in the noticeboards.
71	Ceredigion 2020 International Sheep Dog Trials	Application for financial assistance.	To be discussed at the April meeting.
72	Gŵyl Fawr Aberteifi	Application for financial assistance.	To be discussed at the April meeting.
73	"Y Gambo" Welsh monthly newspaper	Application for financial assistance.	To be discussed at the April meeting.

10. Other Matters:

- (a) **Gwbert Viewpoint:** The potholes at the location are in dire need of repair. Cllr Matthew Morgan volunteered to do the work. He was thanked by the Chairman.
- (b) **Penyparc Young Farmers' Club:** As the Club is celebrating 75 years since its establishment, the Clerk was asked to forward a congratulatory card.
- (c) **"One Planet Development":** A meeting was arranged by Llangoedmor Community Council with Jane Davidson, past minister of the Welsh Government on the environment, sustainability and housing. Cllr Dilwyn Jenkins attended the meeting and found the discussion most beneficial.
- (d) **It was noted that the signpost at the Patch Caravan Park was damaged.**
- (e) **The Council's Annual Dinner:** The Chairman agreed to organise the dinner.
- (f) **Automatic litter bins:**

CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

11. County Councillor's Report – Cllr Clive Davies:

- (a) **Parking bays at Patch:** Further information regarding the proposed development is expected.
- (b) **Passing bays on the lane to Mwnt beach:** A response is expected from the National Trust before development can be agreed.
- (c) **Ceredigion County Council Budget:** Following a recent meeting of the County Council budget committee, it is expected that a 7% increase in the council tax for the 2019-20 financial year will be agreed.
- (d) **Place Plans:** Cllr Davies will meet with the co-ordinator, Mr Martin Price, to discuss plans for the summer with the Ferwig and Llangoedmor communities.
- (e) **Broadband:** A meeting has been organised on 20 February to discuss the fast broadband issue in the area. Elin Jones AM, an officer from G.Tech and a Welsh Government spokesman will attend the meeting.
- (f) **Coastal Path:** Information has been received from Mr Osian Jones, the County Council coastal path officer, stating that the second bridge to the south from Llwynysgaw has been completed and that the third bridge is in need of repair; this bridge will be inspected soon.

12. Date of next meeting: 4 March 2019 at Ystafell Berkley, Penyparc at 7.30pm.

2019 Council Meetings:

1 April (F) 13 May (YB) 3 June (F)

1 July (YB) 2 September (F) 7 October (YB) 4 November (F) 2 December (YB)

Denotes: F = Ferwig Old School. YB = Ystafell Berkley. AGM = Annual General Meeting